confensiwn CYMRU gyfan | all WALES convention

EMBARGO: 12.00am Dydd Gwener 29 Mai 2009

DATGANIAD I'R WASG

Dydd Iau Mai 28, 2009

Confensiwn Cymru Gyfan yn clywed barn aelodau'r Urdd

Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yr wythnos hon (Mai 25 – 30) fe annogodd Confensiwn Cymru Gyfan i ieuenctid Cymru leisio eu barn fel rhan o'u proses ymgynghori parhaol gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael er mwyn cynnig mwy o bwreau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Confensiwn Cymru Gyfan hefyd wedi cyhoeddi mai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru yw'r aelod diweddaraf i ymuno â'r Pwyllgor Gwaith. Her Efa drwy ei gwaith gyda'r Urdd fydd annog ieunectid Cymru i gymryd rhan a lleisio eu barn fel rhan o'r drafodaeth. **Bydd cynhadledd i'r wasg yn cael ei chynnal am 10.15am, fore Gwener, Mai 29, 2009 yn Ystafell Salvi, Canolfan y Mlleniwm.**

Yn ystod yr Eisteddfod fe gafodd Syr Emyr Jones Parry, Cadeirydd Confensiwn Cymru Gyfan y cyfle i gwrdd â grŵp ifanc o aelodau o'r Urdd er mwyn cael sgwrs anffurfiol â nhw ynglŷn â dyfodol pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ddydd Gwener (Mai 29ain) fe gafodd Syr Emyr Jones Parry hefyd y dasg enfawr o feirniadu cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yr Urdd i ysgolion ac Aelwydydd yn Nhŷ Hywel, Caerdydd.

Yn wreiddiol o Dreforys, mae Efa wedi gweithio i nifer o sefydliadau Cymreig allweddol. Dechreuodd ei gyrfa'n gweithio i Fwrdd yr Iaith Gymraeg cyn treulio cyfnod gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Ymunodd Efa â'r Urdd yn 2000 ac fe'i hapwyntwyd yn Brif Weithredwr y mudiad, y ferch gyntaf i ddal y swydd, yn 2003. Erbyn hyn, mae Efa'n byw yng Nghaerdydd gyda'i gŵr a'i mab pedair oed ac mae'n mwynhau teithio ar hyd a lled Cymru'n cynrychioli'r Urdd.

Meddai Efa Gruffudd Jones, "Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn i gyd-weithio â aelodau eraill o bwyllgor Confensiwn Cymru Gyfan fel pâr o lygaid a chlustiau ychwanegol ar gyfer y broses o ymgynghori parhaol. Yn fy ngwaith gyda'r Urdd rwy'n cynrychioli miloedd o bobl ifanc ar draws y wlad ac rwy'n edrych ymlaen at y dasg o'u gwneud yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer sicrhau mwy o ddeddfau pweru i'r Cynulliad Cenedlaethol a pha mor bwysig yw'r penderfyniadau sydd yn cymryd lle nawr i'w dyfodol hwy."

Ychwanegodd Syr Emyr Parry Jones, "Mae Efa Gruffudd Jones yn aelod gwerthfawr iawn i'r Pwyllgor Gwaith ac fe fydd ei gallu i gyfathrebu â phobl ifanc ar draws Cymru'n gymorth mawr i ni gyfleu ein neges mewn dull clir a rhwydd a fydd, gobeithio, yn ysbrydoli nifer o bobl ifanc i ymuno yn y drafodaeth. Mae nifer eisoes wedi ymuno yn y drafodaeth ac rwyf wedi mwynhau ymweld ag ysgolion ar hyd a lled Cymru er mwyn clywed eu barn. Rydym yn awyddus iawn i

sicrhau fod eu llais yn cael clust cyn i'r cyfle arbennig hwn ddod i ben. Mae cyfle hefyd i ysgolion gymryd rhan yng nghystadleuaeth Confensiwn Cymru Gyfan."

Cafodd sesiwn holi ac ateb arbennig ei chynnal ar y Maes ddydd Mercher, Mai 27 gan Gonfensiwn Cymru Gyfan yng nghwmni dwy ysgol uwchradd o Gaerdydd, Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plas Mawr.

Meddai Aled Edwards, Aelod o Bwyllgor Gweithredol Confensiwn Cymru Gyfan a gadeiriodd y sesiwn holi ac ateb, "Roedd hi'n wych gweld cymaint o bobl ifanc mor awyddus i ymuno yn y drafodaeth ac mae diddordeb mawr gan ddisgyblion o'r ddwy ysgol mewn datganoli. Roedd hi'n ddiddorol iawn cael clywed eu barn am sut y byddent yn hoffi gweld Cymru ddatganoledig yn gweithio iddyn nhw yn y dyfodol. Bydd eu sylwadau yn ddefnyddiol iawn wrth i ni barhau i gasglu tystiolaeth ar hyd a lled Cymru. "

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Rhodri Ellis Owen neu Lleucu Cooke yn Cambrensis ar 029 2025 7075 neu lleucu@cambrensis.uk.com

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn Cymru Gyfan ar www.confensiwncymrugyfan.org. Gellir cael gwybodaeth am sut i fynychu'r digwyddiadau cyhoeddus drwy'r llinell wybodaeth digwyddiadau ar 029 2069 4997.